**Adroddiad i'r:** Cyngor

**Dyddiad y Cyfarfod:** 23 Mai 2017

**Swyddog Arweiniol:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

**Awdur yr Adroddiad:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

**Teitl:** Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol a Phenodi Cadeiryddion Archwilio

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ac yn gofyn am benderfyniadau ar faterion yn ymwneud â phwyllgor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Yn dilyn yr etholiadau i'r Cyngor Sir ar 4 Mai 2017 mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau aelodaeth y grwpiau gwleidyddol a'r trefniadau gweithredol (Cabinet).

Bydd hyn yn caniatáu dyrannu seddau ar bwyllgorau'r Cyngor sydd wedi'u trefnu i gyfarfod ddechrau mis Mehefin.

Mae gan Is-Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor rôl led-farnwrol o ran penderfynu ar geisiadau a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'r Ddeddf yn rhoi terfynau amser caeth i'r Cyngor benderfynu ar geisiadau ac yn unol â'r terfynau amser hyn mae cyfarfod o'r Is-Bwyllgor wedi cael ei drefnu ar gyfer 5 Mehefin 2017. Mae Is-Bwyllgor yn cynnwys 3 aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu llawn a bydd yr aelodau angen hyfforddiant ar faterion trwyddedu. Gellir trefnu hyfforddiant cyn y cyfarfod o'r Is-Bwyllgor. Yr aelodau blaenorol o'r Pwyllgor Trwyddedu diwethaf sydd wedi gwneud yr hyfforddiant gofynnol yw'r Cynghorwyr Joan Butterfield, Hugh Irving, Barry Mellor, Pete Prendergast a Huw Williams.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

(i) Bod y Cyngor yn ystyried y sefyllfa ddiweddaraf (i'w hadrodd yn y cyfarfod) mewn perthynas ag aelodaeth y grwpiau gwleidyddol, y trefniadau gweithredol (Cabinet) a dyrannu cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio;

(ii) Bod y Cyngor yn cytuno penodi Cadeirydd ac aelodaeth bresennol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016/17, yn amodol ar unrhyw newidiadau a hysbyswyd gan y Grwpiau;

(iii) Bod y Cyngor yn penodi 2 gynghorydd i'r Pwyllgor Safonau.

## 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1 Amserlen y Pwyllgor

Mae’r flwyddyn ddinesig newydd yn dechrau gyda Chyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Mae'r amserlen bresennol o gyfarfodydd pwyllgor yn parhau tan ddiwedd 2017 ac ynghlwm yn Atodiad 1. Mae amserlen ddrafft ar gyfer 2018 yn cael ei pharatoi a bydd yn cael ei dwyn gerbron y Cyngor i’w hystyried ym mis Gorffennaf.

### 4.2 Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor o leiaf yn flynyddol i ystyried sut mae aelodaeth ei bwyllgorau yn ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol y Grwpiau. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, nid oedd y grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor wedi ffurfio ar ôl yr etholiadau diweddar, er bod y broses yn mynd rhagddi a dylai fod wedi’i chadarnhau erbyn pryd fydd y Cyngor yn cyfarfod.

Efallai bydd cymhwysedd i fod ar bwyllgorau penodol neu i’w cadeirio’n cael eu pennu gan ffactorau penodol. Er enghraifft, os yw aelod ar y Cabinet ai peidio, y grŵp gwleidyddol maent yn aelod ohono, neu os yw’r holl grwpiau gwleidyddol yn penodi aelodau i’r Cabinet.

### 4.3 Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Mae Adran 11 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn mynnu bod y Cyngor yn penodi pwyllgor i adolygu pa mor ddigonol yw darpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gael eu penodi gan y Cyngor Llawn. Ni fydd unrhyw aelodau cyfetholedig. O dan y Mesur ni fydd mwy nag un aelod o'r Cabinet ar y Pwyllgor (ac ni all fod yr Arweinydd), ond penderfynodd y Cyngor ym mis Mai 2012 y byddai'r aelodaeth yn 11 o gynghorwyr ac ni fyddai'n cynnwys aelodau o'r Cabinet.

Rhaid i'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys a rhaid i’r Cyngor benodi cadeirydd sydd ddim yn aelod o unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cabinet.

### 4.4 Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio

Mae tri Pwyllgor Archwilio a bydd y cadeiryddion yn cael eu pennu yn ôl yr egwyddorion a nodwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae’r dyraniadau hyn yn seiliedig ar wneuthuriad gwleidyddol y Cabinet a’r Cyngor nad oedd yn hysbys ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn.

Nid yw'r Mesur na'r canllawiau statudol cysylltiedig yn gwneud darpariaethau ar gyfer newid neu ail-benodi cadeiryddion archwilio, ac eithrio pan fo'r cyfansoddiad gwleidyddol yn newid yn y Cabinet neu lle mae swydd cadeirydd archwilio yn wag am ryw reswm. Byddai unrhyw newidiadau i benodi cadeiryddion yn y dyfodol felly yn

fater i’r grwpiau gwleidyddol sydd â hawl i ddyrannu rôl cadeirio Archwilio benderfynu arno.

### 4.5 <u>Pwyllgor Safonau</u>

Mae aelodau Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn cynnwys 2 gynghorydd sir a benodir gan y Cyngor. Nid oes unrhyw ofyniad am gydbwysedd gwleidyddol mewn perthynas â'r penodiadau hyn ac felly gofynnir i’r Cyngor benodi 2 aelod i’r Pwyllgor.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniadau a gwybodaeth yn deillio o'r adroddiad hwn yn ganolog i weithrediad y systemau democrataidd a phwyllgor sydd yn elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae costau cynnal system pwyllgorau yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ond fe wnaeth y Cyngor ymrwymiad yn 2015 drwy ei broses *Rhyddid a Hyblygrwydd* i leihau nifer y cyfarfodydd pwyllgor a gynhelir i arbed costau cysylltiedig. Gall gwasanaethau ar draws y Cyngor gyfrannu at y cyfarfodydd a gynhwysir yn yr amserlen, fel arfer trwy gyfrannu gwybodaeth, adroddiadau ac amser swyddogion.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

Mae'r amserlen flynyddol o gyfarfodydd yn broses sefydledig ac yn cwrdd ag amcanion y Ddeddf Cydraddoldeb. Y prif 'ddefnyddwyr gwasanaethau' yw aelodau'r pwyllgorau a swyddogion cefnogi, er bod y wasg a'r cyhoedd hefyd yn gallu mynychu rhan fwyaf o gyfarfodydd lle mae budd unigolion neu grwpiau yn debygol o ddibynnu ar y pwnc dan sylw.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Mae’r materion sy’n cael eu trin yn yr adroddiad hwn yn cael eu hymgynghori gyda’r grwpiau gwleidyddol a holl aelodau’r Cyngor.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai methiant i gadarnhau rolau cynghorwyr ac aelodaeth pwyllgorau yn niweidiol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

## 11. Grym i wneud y Penderfyniad

Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; Deddf Tai a Llywodraeth Leol 1989; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.